*Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 114(3) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

# 2022 Rhif (Cy. )

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

# CYFRAITH TROSEDD, CYMRU

# Gorchymyn Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (Awdurdod Ychwanegol) (Cymru) 2022

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio adran 17(2) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (p. 37) ("y Ddeddf") i ychwanegu cyd-bwyllgorau corfforedig a sefydlir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1) at y rhestr o awdurdodau yn adran 17(2) o'r Ddeddf, ac fel y cyfryw maent yn agored i gydymffurfio ag adran 17(1).

Mae adran 17(1) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau sy'n ddarostyngedig iddi, i roi sylw dyladwy i effaith debygol arfer eu swyddogaethau ar droseddu ac anhrefn yn eu hardaloedd, camddefnyddio cyffuriau, alcohol a sylweddau eraill yn eu hardaloedd, ac aildroseddu yn eu hardaloedd, a'r angen i wneud popeth y gellir yn rhesymol ei wneud i atal y pethau hynny.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gysylltiedig â rheoliadau a sefydlodd gyd-bwyllgorau corfforedig penodol o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r rheoliadau sy'n sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig a gorchmynion a rheoliadau cysylltiedig. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol ar yr adeg y gwnaed y rheoliadau sefydlu

hynny, a dibynnir ar yr asesiad hwnnw at ddiben y Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Cyllid Strategol Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

*Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 114(3) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U  D R A F F T

# 2022 Rhif (Cy. )

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

# CYFRAITH TROSEDD, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (Awdurdod Ychwanegol) (Cymru) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | ***** |
| *Yn dod i rym* | *25 Mawrth 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 17(4) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru, ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad yn unol ag adran 114(3)(**3**) o'r Ddeddf honno.

---

(**1**) 1998 p. 37. Mewnosodwyd adran 17(4) gan Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 (p. 48).

(**2**) Trosglwyddwyd y pŵer a roddir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 17(4) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998, fel "the appropriate authority" yn unol ag adrannau 5(7) a 17(5) o'r Ddeddf honno, i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) Diwygiwyd adran 114(3) gan Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006. Mae diwygiadau eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

**Enwi a dod i rym**

**1.—**(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Trosedd ac Anhrefn 1998 (Awdurdod Ychwanegol) (Cymru) 2022.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 25 Mawrth 2022.

**Diwygio adran 17 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998**

**2.** Yn adran 17(2)(**1**) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998, ar ôl "a joint authority;" mewnosoder "a corporate joint committee established by regulations made under Part 5 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021 (asc 1);".

*Enw*
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

(**1**) Diwygiwyd adran 17 gan Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006; Deddf Plismona a Throseddu 2009 (p. 26); Deddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009 (p. 20); Deddf Plismona a Throseddu 2017 (p. 3); Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (p. 13); O.S. 2008/78; a Deddf Lleoliaeth 2011 (p. 20). Ceir diwygiadau eraill ond nid ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.